Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Practis Deintyddol Smiles Llandudno

Dyddiad yr arolygiad: 19 Mai 2025
Dyddiad cyhoeddi: 19 Awst 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80633-295-3
© Hawlfraint y Goron 2025

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'r arolygiad ........ 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ........ 8

- Ansawdd Profiad y Claf ........ 8
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 11
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 15

4. Y camau nesaf ........ 18

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 19

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith ........ 21

Atodiad C - Cynllun gwella ........ 22

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Smiles Llandudno ar 19 Mai 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 18 o holiaduron gan gleifion a chwblhawyd chwech gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Nodwyd gennym fod y staff ym mhractis deintyddol Smiles Llandudno yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w cleifion.

Roedd yr adeilad yn lân yr olwg, mewn cyflwr da ac yn darparu amgylchedd dymunol i'r cleifion.

Gwelsom fod y staff yn trin y cleifion mewn modd cwrtais, cyfeillgar a phroffesiynol. Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth yn cael ei darparu i gleifion am y gwasanaeth a'r triniaethau a ddarperir.

Dywedodd pob un o'r unigolion a ymatebodd i holiadur AGIC fod y gwasanaeth yn ‘dda iawn’ neu'n ‘dda’.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd dymunol mewn cyflwr da
- Mynediad da i gleifion ag anawsterau symudedd
- Roedd y gwasanaeth yn annog adborth gan gleifion, ac yn gweithredu arno.

## Darparu  Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod yn drefnus. Roedd y deintyddfeydd yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn addas at y diben.

Roedd y staff yn dilyn gweithdrefnau clir i sicrhau bod offer deintyddol yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio. Roedd ystafell ar wahân yn cael ei defnyddio i ddihalogi, ac mae hyn yn arfer dda yn ein barn ni. Roedd gweithdrefnau cadarn ar waith ar gyfer defnyddio meddyginiaethau a chyfarpar clinigol yn ddiogel.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynnal archwiliadau o gofnodion y cleifion i sicrhau cysondeb.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y practis yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn addas at y diben
- Roedd mesurau priodol ar waith i sicrhau arferion rheoli heintiau o safon uchel

- Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith i helpu i sicrhau gofal diogel ac effeithiol.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir ar waith ym mhractis Smiles Llandudno. Roedd y perchnogion yn dangos ymrwymiad clir i ddarparu gofal o safon uchel.

Roedd cofnodion y staff yn cael eu cadw'n dda, a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf yn unol â gofynion rheoliadol. Gwelsom dystiolaeth hefyd o gyfarfodydd staff rheolaidd a phrosesau rheoli perfformiad.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau ar waith. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd a'u llofnodi gan y staff.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd trefniadau rheoli effeithiol ar waith yn y ddeintyddfa
- Roedd systemau ar waith i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd
- Systemau a chofnodion cadarn ar gyfer recriwtio a chyflogi staff.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan gleifion

Roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan. Nododd pob un o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn ‘dda iawn’ neu'n ‘dda’. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *“Staff a gwasanaeth rhagorol."*
>
> *“Hoffwn ddiolch i aelodau'r tîm am eu caredigrwydd!”*
>
> *“Mae'r staff bob amser yn gyfeillgar ac yn ddymunol, mae'n bractis da iawn gyda phobl hyfryd iawn. Rwy'n cael fy nhrin yn arbennig.”*

### Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

**Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion**
Gwelsom amrywiaeth o daflenni a phosteri yn y dderbynfa a'r ardaloedd aros i gleifion. Roedd y rhain yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau a'r triniaethau a ddarperir. Gwelsom wybodaeth wedi'i hargraffu am roi'r gorau i smygu a dywedodd y staff wrthym eu bod yn trafod deiet ac iechyd yn ystod ymgyngoriadau. Gwnaethom argymell y dylid darparu deunyddiau ychwanegol am iechyd cyffredinol ac iechyd y geg yn yr ardal aros. Ymdriniwyd â hyn ar unwaith ar ôl yr arolygiad a rhoddwyd tystiolaeth ffotograffig i AGIC.

Roedd Datganiad o Ddiben y practis a'r Daflen Wybodaeth i Gleifion ar gael yn yr adeilad ac ar wefan y practis. Roedd gwybodaeth am enwau'r staff, eu rôl a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael ei harddangos. Roedd lluniau o'r staff clinigol hefyd i'w gweld.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod y staff wedi esbonio iechyd y geg yn glir a'u bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i gynnal iechyd y geg da.

**Gofal urddasol a pharchus**
Gwelsom fod y staff yn trin cleifion mewn modd cwrtais, cyfeillgar a phroffesiynol. Roedd pob un o ymatebwyr holiadur AGIC yn teimlo eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch.

Roedd yr adeilad wedi'i addurno i sicrhau ei fod yn groesawgar i'r cleifion, ac roedd lluniaeth, llyfrau a gweithgareddau ar gael i'r plant yn yr ardal aros. Roedd drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau ac roedd ffenestri allanol yn cael eu gorchuddio er mwyn sicrhau preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd cerddoriaeth yn cael ei chwarae yn yr ardaloedd cyhoeddus i hyrwyddo preifatrwydd. Roedd swyddfa ar gael y tu ôl i'r dderbynfa lle gallai cleifion gael trafodaethau cyfrinachol.

Roedd prisiau'r triniaethau i'w gweld yn glir i gleifion yn yr ardal aros ac wrth ddesg y dderbynfa. Roedd naw egwyddor moesegol ymarfer craidd, a nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, wedi'u harddangos er mwyn dangos yr hyn y dylai'r cleifion ei ddisgwyl gan weithwyr deintyddol proffesiynol. Roedd gan y practis Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr cyfredol ac roedd copi o'r dystysgrif wedi'i arddangos.

**Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 10 claf, a gadarnhaodd fod gwybodaeth adnabod a hanes meddygol wedi'i lofnodi priodol yn cael eu cofnodi.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod y staff wedi rhoi digon o wybodaeth iddynt ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael, ynghyd â'u risgiau a'u manteision.

## Amserol

**Gofal amserol**

Dywedwyd wrthym fod y staff clinigol yn rhoi gwybod i staff y dderbynfa am unrhyw oedi er mwyn sicrhau y gellid hysbysu'r cleifion a rhoi opsiwn iddynt ail-drefnu eu hapwyntiad os dymunant.

Roedd oriau agor y practis wedi'u harddangos yn glir ger y drws ffrynt, yn y daflen wybodaeth i gleifion ac ar wefan y practis.

Dywedodd y staff wrthym y gwneir pob ymdrech i ddarparu ar gyfer apwyntiadau brys, a bod sesiynau bore a sesiynau prynhawn ar gael bob dydd. Roedd apwyntiadau brys yn cael eu blaenoriaethu yn seiliedig ar symptomau'r cleifion a'u hanghenion clinigol.

Dywedodd pob un o'r rhai a gwblhaodd holiadur AGIC ei bod naill ai'n ‘hawdd iawn’ neu'n ‘eithaf hawdd’ cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

## Teg

**Cyfathrebu ac iaith**

Roedd y daflen wybodaeth i gleifion ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dywedwyd wrthym fod rhai aelodau o'r staff yn siarad Cymraeg, Sbaeneg a Rwmaneg, a bod y cleifion nad oeddent yn siarad Saesneg yn tueddu i ddefnyddio apiau cyfieithu ar eu ffonau symudol neu'n dod ag aelodau o'r teulu gyda nhw i'w helpu. Fodd bynnag, dylai'r practis fod yn ymwybodol bod un ymatebydd sy'n siarad Cymraeg a ymatebodd i holiadur AGIC yn teimlo nad oedd wedi cael cynnig y cyfle i siarad Cymraeg yn ystod ei daith fel claf. At hynny, ni welsom unrhyw dystiolaeth i ddangos bod dewis iaith cleifion yn cael ei gofnodi yn y sampl o gofnodion 10 claf y gwnaethom edrych arnynt. Gwnaethom drafod hyn â'r staff a roddodd dystiolaeth ar unwaith ar ôl yr arolygiad i ddangos bod y maes hwn wedi cael ei ychwanegu at gofnodion y cleifion.

**Hawliau a chydraddoldeb**

Gwelsom fod polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol ar waith yn y practis yn ogystal â pholisi bwlio, aflonyddu a cham-drin. Roedd y polisïau'n cyfeirio at ddeddfwriaeth briodol ac yn disgrifio nodweddion gwarchodedig. Roedd y ddau bolisi yn gyfredol ac wedi'u dyddio a'u llofnodi gan y staff.

Dywedodd y staff wrthym fod enwau a/neu ragenwau a ffefrir yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion, a oedd yn sicrhau bod cleifion trawsryweddol yn cael eu trin â pharch.

Roedd y practis wedi cwblhau archwiliad o fynediad i bobl anabl ac roedd addasiadau wedi cael eu gwneud i sicrhau y gall pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd ddefnyddio'r gwasanaethau. Roedd y practis wedi'i leoli ar y llawr gwaelod, gyda mynediad gwastad drwyddo. Dywedodd y staff wrthym fod nodiadau'n cael eu gwneud yng nghofnodion y cleifion ag anawsterau symudedd er mwyn sicrhau eu bod yn gallu defnyddio'r ddeintyddfa agosaf at yr ardal aros.

Roedd ramp cludadwy ar gael i helpu'r bobl sy'n defnyddio cadair olwyn i fynd i mewn i'r practis drwy'r drws ffrynt pe bai angen ac roedd y toiled i gleifion yn hygyrch ac yn cynnwys handlenni cydio. Roedd pin deheurwydd (*dexterity pen*) ar gael i helpu'r cleifion ag arthritis i lofnodi dogfennau. Dywedodd y staff wrthym y byddant yn trefnu apwyntiadau hirach ar gyfer cleifion anabl fel y bo angen.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

**Rheoli risg**
Gwelsom fod yr adeilad yn lân, mewn cyflwr da ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg.

Gwelsom dystiolaeth o Brofion Offer Cludadwy cyfredol, archwiliad bob pum mlynedd o osodiadau trydanol a gwiriadau diogelwch nwy blynyddol.

Roedd polisi Iechyd a Diogelwch priodol ar waith yn y practis, a oedd yn cael ei ategu gan amrywiaeth gynhwysfawr o asesiadau risg. Nid oedd unrhyw bolisi ar waith ar gyfer sicrhau bod y safle'n addas at y diben. Fodd bynnag, disgrifiodd y staff brotocolau priodol ar gyfer cynnal gwiriadau a threfnu gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio a gwnaethom gynghori y dylid rhoi polisi ar waith i ddogfennu'r rhain. Ymdriniwyd â hyn ar unwaith ar ôl yr arolygiad a rhoddwyd y dogfennau priodol i AGIC.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer trin sylweddau y mae'r rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn berthnasol iddynt. Gwnaethom nodi bod tabledi tynnu cen a ddefnyddir ar gyfer y peiriant coffi yn yr ardal aros yn cael eu storio mewn drôr lefel isel. Gwnaethom gynghori y dylid symud y tabledi i sicrhau na all plant gael gafael arnynt ac aethpwyd i'r afael â hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Gwnaethom edrych ar ddogfennau yn ymwneud â diogelwch tân a gwelsom fod asesiad risg tân priodol ar waith. Roedd arwyddion clir ar gyfer y llwybrau dianc, a gwelsom dystiolaeth bod ymarferion tân wedi cael eu cynnal. Roedd diffoddwyr tân wedi'u gosod ac roedd arwyddion priodol ar eu cyfer, ac roedd tystiolaeth eu bod yn cael eu gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw'n rheolaidd. Roedd arwyddion ‘dim smygu’ wedi'u harddangos yn glir.

Roedd polisi parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb cyfredol ar waith a oedd yn cynnwys rhifau ffôn mewn argyfwng.

Roedd cyfleusterau newid ar gael i'r staff ynghyd â loceri storio ar gyfer eitemau personol. Roedd y toiled rhywedd cymysg i gleifion yn lân yr olwg, ac roedd yn cynnwys cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas ac uned gwaredu eitemau mislif.

Roedd gweithdrefnau priodol ar waith i waredu gwastraff. Gwelwyd bod clo ar y bin gwastraff clinigol yng nghefn y safle a bod y bin yn cael ei gadw mewn ardal â

giât. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori y dylid ei symud y tu ôl i giât arall er mwyn sicrhau ei fod yn gwbl ddiogel. Aethpwyd i'r afael â hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

**Atal a rheoli heintiau a dihalogi**
Roedd trefniadau i sicrhau bod dulliau rheoli heintiau o safon dda ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau rheoli heintiau priodol ac arweinydd rheoli heintiau dynodedig. Gwelsom fod trefn lanhau effeithiol yn y practis.

Roedd ystafell ddynodedig yn y practis ar gyfer dihalogi a sterileiddio offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru WHTM 01-05. Gwelsom fod yr ystafell ddihalogi wedi'i dylunio'n dda, ei bod o faint priodol ac yn cynnwys cyfleusterau glân a threfnus a oedd yn sicrhau cydymffurfiaeth i safon dda. Roedd y gweithdrefnau ar gyfer prosesu, dihalogi a sterileiddio offer deintyddol yn briodol ac roedd y staff yn eu deall yn dda. Roedd gwiriadau priodol yn cael eu cynnal o'r cyfarpar dihalogi ac yn cael eu cofnodi.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pedwar aelod o'r staff a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cael brechlyn yn erbyn haint Hepatitis B.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod y practis yn 'lân iawn' neu'n 'eithaf glân' a bod mesurau atal a rheoli heintiau amlwg ar waith.

**Rheoli meddyginiaethau**
Roedd polisi rheoli meddyginiaethau ar waith yn ogystal â gweithdrefnau ar gyfer defnyddio, storio a gwaredu meddyginiaethau yn ddiogel. Roedd oergelloedd dynodedig yn cael eu defnyddio i storio meddyginiaethau gyda gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal o'r tymheredd.

Gwnaethom archwilio'r trefniadau a oedd ar waith a'r cyfarpar a oedd ar gael i ddelio ag argyfyngau meddygol. Roeddem o'r farn bod y rhain yn briodol, bod y cyfarpar a'r cyffuriau brys yn gyfredol a bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal. Roedd y cyfarpar brys yn cynnwys menig; fodd bynnag, gwnaethom gynghori y dylid cynnwys cyfarpar amddiffyn y llygaid a ffedogau hefyd er mwyn sicrhau arfer gorau. Ymdriniwyd â hyn ar unwaith ac ychwanegwyd yr eitemau at y cyfarpar brys yn ystod yr arolygiad.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar adfywio cardiopwlmonaidd (CPR). Roedd tri aelod o'r staff wedi cael eu penodi'n swyddogion cymorth cyntaf ac roedd pecynnau cymorth cyntaf ar gael yn hawdd ac yn cynnwys digon o gyfarpar.

**Diogelu plant ac oedolion**

Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu oedolion a phlant ar waith ac roeddent ar gael i bob aelod o'r staff. Roedd y rhain yn cynnwys siartiau llif a manylion cyswllt allanol lleol. Gwnaethom edrych ar gofnodion sampl o staff a gwelsom dystiolaeth eu bod wedi cael hyfforddiant priodol a chyfredol ar ddiogelu plant ac oedolion. Roedd y staff yn ymwybodol o Weithdrefnau Diogelu Cymru a gwelsom fod ganddynt yr ap ar eu ffonau symudol.

**Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol**
Yn ystod trafodaethau cyn yr arolygiad, gwnaethom nodi bod y practis yn defnyddio laser ar gyfer rhai triniaethau nad oedd wedi'i gofrestru gydag AGIC.

Cafodd y triniaethau a oedd yn defnyddio laser eu hatal gan y rheolwr cofrestredig ar unwaith a chyflwynodd gais i gofrestru'r peiriant laser gydag AGIC, cyn yr arolygiad.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer y peiriant laser a gwelsom ei fod yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel. Roedd cofnodion priodol yn cael eu cynnal, roedd rheolau lleol ar waith, roedd y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf, roedd sbectol amddiffynnol briodol ar gael i'r staff a'r cleifion ac roedd y ddyfais yn cael ei chynnal a'i chadw'n addas. Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau, a chyflwynwyd tystiolaeth o hyn i AGIC yn syth ar ôl yr arolygiad.

Gwelsom fod gweithdrefnau a chofnodion cynnal a chadw priodol ar waith mewn perthynas â defnyddio cyfarpar pelydr-X. Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom fod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol). Nid oedd gwybodaeth am fanteision a risgiau dod i gysylltiad â phelydr-X ar gael yn hwylus i'r cleifion. Fodd bynnag, ymdriniwyd â'r mater hwn yn ystod yr arolygiad, a chafodd poster priodol ei osod yn yr ardal aros i gleifion.

## Effeithiol

**Gofal effeithiol**
Gwelsom fod trefniadau diogel ar waith yn y practis ar gyfer derbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin.

Roedd y practis yn defnyddio rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol er mwyn lleihau'r risg o dynnu'r dant anghywir.

**Cofnodion cleifion**
Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n electronig ac yn unol â pholisi Rheoli Cofnodion priodol.

Gwnaethom edrych ar gofnodion 10 claf a gwelsom brosesau da ar gyfer cofnodi gwybodaeth glinigol ar y cyfan. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen cofnodi gwybodaeth yn fwy cyson, fel y wybodaeth ganlynol:

- Cyfiawnhad dros gynnal radiograffau
- Cydsyniad cleifion i greu delweddau pelydr-X
- Rhoi gwybod am ansawdd, canfyddiadau ac amlder radiograffau
- Archwiliadau Periodontol Sylfaenol
- Asesiadau risg ar bydredd, asesiadau risg periodontol, colli arwyneb dannedd a chanser y geg
- Gwybodaeth am ddefnydd alcohol y claf a'i arferion smygu, gan gynnwys cyngor ar roi'r gorau i smygu.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol**

- **Sicrhau bod cofnodion cleifion yn gyflawn a'u bod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol yn unol â safonau a chanllawiau proffesiynol**
- **Sicrhau bod archwiliadau'n cael eu cynnal o gofnodion y cleifion i fonitro ansawdd a chysondeb y cofnodion ym mhob rhan o'r practis.**

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Adborth gan staff

Ymatebodd chwe aelod o'r staff i holiadur AGIC. Ar y cyfan, roedd y sylwadau yn gadarnhaol mewn perthynas â'r amgylchedd, y cyfleusterau a'r lefelau staffio. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn cytuno mai gofalu am y cleifion yw prif flaenoriaeth y practis, ac y byddent yn argymell y practis fel lle da i weithio ynddo. Roedd hanner yr ymatebwyr yn teimlo eu bod wedi cael hyfforddiant priodol ac roedd hanner yr ymatebwyr yn cytuno i ryw raddau, a nodwyd y byddai hyfforddiant ychwanegol, fel hyfforddiant cydgysylltydd triniaeth a rheoli, yn ddefnyddiol.

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

> *"Mae aelodau arbennig yn rhan o dîm y practis sy'n gofalu am ei gilydd a'r cleifion i'r safon uchaf. Rwy'n falch iawn o fod yn rhan ohono."*

> *"Rwy'n mwynhau gweithio yn Smiles Llandudno yn fawr iawn. Mae codi a dod i'r gwaith bob dydd yn rhoi mwynhad i mi."*

## Arweinyddiaeth

**Llywodraethu ac arweinyddiaeth**
Roedd strwythurau rheoli clir ar waith a gwelsom ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth o safon uchel ac agwedd gadarnhaol ar gyfer gwneud gwelliannau.

Roedd y practis yn cynnal cyfarfodydd tîm misol ac yn rhannu cofnodion â'r staff ar bapur ac yn electronig. Dywedwyd wrthym fod sgrymiau dyddiol hefyd yn cael eu cynnal i rannu adborth a'r wybodaeth ddiweddaraf.

Roedd systemau ar waith i reoli perfformiad gydag arfarniadau'n cael eu cynnal gyda'r nyrsys deintyddol bob chwe mis. Hefyd, roedd y clinigwyr yn cynnal adolygiadau gan gymheiriaid bob blwyddyn. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod gan y staff gynlluniau datblygiad personol.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau ar gael i'r staff i'w helpu i ddarparu'r gwasanaeth. Roedd systemau cadarn ar waith i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar waith a'u bod yn cael eu cadw'n gyfredol.

## Y Gweithlu

**Gweithlu medrus a galluog**
Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer cyflogi staff. Gwelsom bolisïau a gweithdrefnau, a oedd yn rhoi manylion am y broses recriwtio a'r gwiriadau a gynhelir ar ddarpar gyflogeion. Roedd y gwiriadau recriwtio yn cynnwys prawf adnabod, yr hawl i weithio, cymwysterau a brechiadau, a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion staff a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, bod ganddynt yswiriant indemniad proffesiynol a'u bod wedi ymgymryd â gwiriadau priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Roedd gofynion hyfforddiant y staff yn cael eu monitro'n rheolaidd ac roedd cydymffurfiaeth dda â'r gofynion o ran hyfforddiant gorfodol a oedd yn dangos bod y systemau a ddefnyddir yn effeithiol.

## Diwylliant

**Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu**
Roedd adborth gan gleifion yn cael ei geisio'n rheolaidd a gallai'r cleifion roi adborth ar-lein a thrwy ddefnyddio blwch awgrymiadau yn yr ardal aros. Dywedodd y staff wrthym fod neges destun yn cael ei hanfon at y cleifion yn dilyn eu triniaeth sy'n cynnwys dolen er mwyn iddynt roi adborth ar-lein a bod y practis yn cael crynodeb misol a gradd seren yn seiliedig ar yr adborth hwn.

Roedd gweithdrefn gwyno gynhwysfawr ar waith, a oedd ar gael yn hwylus i gleifion. Roedd y weithdrefn yn cynnwys amserlenni priodol ar gyfer ymateb a sut i uwchgyfeirio'r mater pe bai angen.

Gwelsom fod cwynion a wnaed ar lafar ac yn ysgrifenedig yn cael eu cofnodi gan gynnwys trosolwg i nodi unrhyw themâu cyffredin.

## Dysgu, gwella ac ymchwil

**Gweithgareddau gwella ansawdd**
Roedd polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i lywodraethu gweithgareddau gwella ansawdd.

Gwelsom dystiolaeth bod amrywiaeth o archwiliadau clinigol ac anghlinigol yn cael eu cynnal, gan gynnwys archwiliadau o wastraff gofal iechyd, defnyddio gwrthfiotigau, iechyd a diogelwch a mynediad i bobl anabl. Dywedodd y staff

wrthym y bwriedir cynnal archwiliad fel rhan o gynllun achredu Denplan Excel yn ystod y mis yn dilyn arolygiad AGIC.

Roedd y practis yn casglu adborth gan y staff mewn cyfarfodydd tîm a thrwy ddefnyddio ffurflenni adborth.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae’n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi’n glir sut yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i’r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a’r cyhoedd yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw’r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o’r sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| **Pryderon uniongyrchol a nodwyd** | **Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion** | **Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder** | **Sut cafodd y pryder ei ddatrys** |
|---|---|---|---|
| Roedd tabledi tynnu cen a ddefnyddir ar gyfer y peiriant coffi yn yr ardal aros yn cael eu storio mewn drôr lefel isel. | Gallai plant nad ydynt yn cael eu goruchwylio gael gafael ar sylweddau niweidiol posibl. | Cafodd hyn ei drafod gyda'r Rheolwr Swyddfa. | Aethpwyd i'r afael â hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad a symudwyd y tabledi i leoliad diogel. |
| Gwelwyd bod clo ar y bin gwastraff clinigol yng nghefn y safle a bod y bin yn cael ei gadw mewn ardal â giât. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori y dylid ei symud y tu ôl i giât arall er mwyn sicrhau ei fod yn gwbl ddiogel. | Dylid cadw gwastraff clinigol mewn ardal lle na all y cyhoedd gael gafael arno. | Cafodd hyn ei drafod gyda'r Rheolwr Cofrestredig. | Aethpwyd i'r afael â hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad. |
| Nid oedd gwybodaeth am fanteision a risgiau dod i gysylltiad | Dylid rhoi gwybodaeth i'r cleifion er mwyn sicrhau | Cafodd hyn ei drafod gyda'r Rheolwr Cofrestredig. | Ymdriniwyd â'r mater hwn yn ystod yr arolygiad, a chafodd poster priodol ei osod yn yr ardal aros i gleifion. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| â phelydr-X ar gael yn hwylus i'r cleifion. | eu bod yn deall risgiau a buddion y driniaeth. | | |

# Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** **Smiles Llandudno**

**Dyddiad yr arolygiad:** **19 Mai 2025**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

| Risg/canfyddiad/mater | | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Ni nodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad. | | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau): Dd/G**

**Swydd: Dd/G**

**Dyddiad: Dd/G**

# Atodiad C - Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Smiles Llandudno

## Dyddiad yr arolygiad: 19 Mai 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater | | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Nid oedd gwybodaeth glinigol yn cael ei chofnodi'n rheolaidd ym mhob rhan o'r practis. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol:<br>• Sicrhau bod cofnodion cleifion yn gyflawn a'u bod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol yn unol â safonau a chanllawiau proffesiynol<br>• Sicrhau bod archwiliadau'n cael eu cynnal o gofnodion y cleifion i fonitro ansawdd a chysondeb | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 20(1) | Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r clinigwyr. Cytunwyd y byddant yn cofnodi gwybodaeth glinigol yn fwy cyson. | Rheolwr y Practis | Caiff archwiliad newydd ei gynnal mewn tri mis er mwyn nodi gwelliant |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | y cofnodion ym mhob rhan o'r practis. | | | | |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau):** **Carmen Gisca**

**Teitl swydd:** **Rheolwr Cofrestredig**

**Dyddiad:** **16 Gorffennaf 2025**